

## CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

### DEDDF ADNODDAU DŴR 1991

#### Is-ddeddfau Brys Gwialen a Llinyn Afon Hafren (Eogiaid) (Cymru) 2021

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth ymarfer ei bŵer o dan adran 210 a pharagraff 6(1)(b) o Atodlen 25 ac Atodlen 27 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, yn gwneud yr is-ddeddfau brys canlynol er mwyn gwarchod a chadw pysgodfeydd o fewn afon Hafren yng Nghymru.

#### Is-ddeddf 1 – Teitl

Gellir galw'r is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Brys Gwialen a Llinyn Afon Hafren (Eogiaid) (Cymru) 2021.

#### Is-ddeddf 2 – Defnydd

- (a) Bydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i'r rhan honno o afon Hafren a'i hisafonydd yng Nghymru lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd.
- (b) Daw'r is-ddeddfau hyn i rym ar 1 Mawrth 2021.

#### Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

- (a) Ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.
- (b) Ystyr "afon Hafren" yw ardal dalgylch afon Hafren a'r holl gyrsiau dŵr sy'n draenio neu sy'n llifo iddi, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd yng Nghymru yn unig.
- (c) Ystyr "eog" yw rhywogaeth "eog yr Iwerydd" (*Salmo salar*).
- (d) Mae "Cymru" yn golygu Cymru gyfan, ynghyd â'r rhannau hynny o'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos â Chymru hyd at chwe milltir o'r gwaelodlinau y mae lled y môr hwnnw'n cael ei fesur ohonynt.

- (e) Ac eithrio fel y darperir uchod neu lle mae'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu diffinio gan yr ystyr a roddir iddynt gan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 neu unrhyw addasiadau statudol neu ailddeddfiad ohonynt.

#### **Is-ddeddf 4 – Gwahardd cadw eogiaid o afon Hafren a ddaliwyd gan wialen a llinyn**

- (a) Ni chaniateir i neb dynnu eog o'r dŵr a ddaliwyd gan wialen a llinyn yn afon Hafren, na'i gadw.
- (b) Rhaid dychwelyd unrhyw eog a dynnir o'r dŵr gan wialen a llinyn i'r afon ar unwaith, yn y fan y'i daliwyd, gan achosi'r niwed lleiaf posibl iddo.

#### **Is-ddeddf 5 – Cyfyngiad Tymor Cynnar ar Ddull Pysgota Eogiaid â Gwialen a Llinyn**

Bydd unrhyw unigolyn sy'n pysgota am, sy'n cymryd neu sy'n gwneud ymgais i bysgota am neu wneud ymgais i gymryd unrhyw eog â gwialen a llinyn drwy unrhyw ddull ar wahân i bryf artiffisial neu lith pysgota artiffisial cyn 16 Mehefin o fewn unrhyw flwyddyn galendr yn euog o drosedd.

#### **Is-ddeddf 6 – Esemptiadau**

Ni fydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i gyflogai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweithio yn ei rinwedd swyddogol neu i unrhyw unigolyn sydd, gyda chaniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn unol ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwnnw, yn cynnal gwaith sy'n ymwneud â chynnal, gwella neu ddatblygu pysgodfeydd neu at ddibenion gwyddonol.

#### **TYSTIED HYN OLL GAN SÊL GYFFREDIN CORFF CYFOETH NATURIOL CYMRU**

A roddwyd ar y/yr 24 diwrnod o Chwefror

2021

LLOFNODWR AWDURDODEDIG

S. Abbey

H82A

